

Cyfarwyddiadau Polisi

10/02/2021

10/02/2021

[See all updates](#)

Mae llywodraethau ledled y DU yn rhoi cyfarwyddiadau polisi i ni lywio ein gwaith - maen nhw'n 'faterion i'w hystyried'.

Atodiad	Maint
UK government policy directions, plus additional for England	140.46 KB
Policy directions in relation to Wales	61.05 KB
Policy directions in relation to Scotland	103.94 KB

Mae cyfarwyddiadau'r DU yn berthnasol i bob cyllid a wnaed gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y cyfarwyddiadau polisi yn flynyddol, drwy ein [Hadroddiad Blynnyddol a'n Cyfrifon](#) a gyhoeddir ar wefan llywodraeth y DU. Mae'r cyfarwyddiadau polisi yn berthnasol i gronfeydd y Loteri Genedlaethol ac nid cymorth grant. Mae'r Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol yn gorchymyn yr hyn y gallwn ac na allwn ei wneud gyda grant mewn cymorth.

Mae'r cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Lloegr yn cael eu gosod gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae cyfarwyddiadau datganoledig yn berthnasol yn ychwanegol. Mae gweinidogion yn y gwledydd datganoledig yn defnyddio'u pwerau i roi cyfarwyddiadau ychwanegol i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae cyfarwyddiadau polisi i Gymru a'r Alban. Gallwch weld a lawrlwytho pob cyfeiriad polisi o'r dudalen hon.

Mae cyfarwyddiadau polisi Gogledd Iwerddon wedi bod yn absennol ers sawl blwyddyn, oherwydd absenoldeb Pwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon a Chynulliad Gogledd Iwerddon o 2017 i 2020. Cafodd hyn ei ohirio ymhellach gan y pandemig coronafeirws (COVID-19). Aeth cyfarwyddiadau polisi drafft Gogledd Iwerddon allan i ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2022 a gaeodd ym mis Ebrill. Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ystyried yr ymatebion cyn mynd yn ôl i'r Adran Cymunedau ym mis Medi, ble bydd wedyn angen sêl bendith Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Nid oes sicrwydd pryd yn union y gallai hyn ddigwydd o ystyried nad yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn weithredol ar hyn o bryd.